**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Mehefin 2025 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Mark Young (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Elgan W Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Swyddog Monitro |
| Matthew Powel | Swyddog Monitro Cynorthwyol |
| Angharad Ellis | MIAA |
| Kieran Vickery | Archwilio Cymru |
| Carwyn Rees | Archwilio Cymru |
| Timothy Buckle | Archwilio Cymru |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Marian Lloyd Rees | Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol – cofnodydd |

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Gwynedd |

**YN ABSENNOL**

| | |
|---|---|
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |

**2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Ni chyflwynwyd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

**4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 MAWRTH 2025**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2025 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

**4.2 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd, gan nodi'r gwelliannau uchod.**

**5.0 MATERION YN CODI**

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**6.0 BARN AC ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2024/25**

6.1 Croesawyd Angharad Ellis o MIAA i'r cyfarfod a chyflwynodd Farn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25, adroddiad a oedd yn ofynnol yn flynyddol i alluogi Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol.

6.2 Nodwyd bod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2017 CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ar y system gyfan o reolaeth fewnol, gan gynnwys digonolrwydd y trefniadau rheoli risg a llywodraethiant corfforaethol. Roedd yr adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025.

6.3 Cadarnhaodd Angharad Ellis fod lefel gyffredinol y sicrwydd ar y rheolaethau mewnol yn sylweddol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod sicrwydd cyfyngedig wedi'i roi mewn perthynas â'r trefniadau rheoli risg a gofynnodd yr Aelodau a oedd cynllun i gyflawni gwelliannau yn y maes hwn. Ymatebodd Angharad fod argymhellion wedi'u cytuno a bod trefniadau dilynol ar waith.

**6.4 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth yr Awdurdod**

**7.0 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL MEHEFIN 2025**

7.1 Gwahoddwyd Angharad Ellis i gyflwyno'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Mehefin 2025, a'i bwrpas oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ac ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mai 2025.

7.2 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi bod mewn cyfarfod gyda Swyddogion yn ddiweddar ynghylch cynnwys yr adroddiad hwn a'i fod yn teimlo bod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd mewn perthynas â risg. Ymatebodd PSTC Jones fod y cynnydd o ran rheoli risg yn parhau a bod cydweithrediad agos ag MIAA yn parhau.

7.3 Gofynnodd Aelod a ddylid ystyried symud y risg seiberddiogelwch ymlaen gan ei bod yn ymddangos yn gyffredin yn fyd-eang ar hyn o bryd. Ymatebodd Angharad fod adolygiad pellach o seiberddiogelwch wedi'i drefnu ar gyfer 2026/27, a bod archwiliad dwfn wedi digwydd fel rhan o gynllun 2024/25 gyda gwaith dilynol ar yr argymhellion i'w wneud eleni i sicrhau eu bod wedi eu cwblhau. Dyma hefyd y risg gyntaf ar y Gofrestr Risg Strategol.

7.4 Cadarnhaodd PSTC MacArthur ymhellach fod gwaith yn parhau tuag at y Fframwaith Sicrwydd Seiber, model sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ond teimlai y gallai fod sesiwn ar wahân i ddarparu gwybodaeth i'r Aelodau am drefniadau, risgiau allweddol, a'r cyfeiriad y mae gwaith yn digwydd ynddo. Cytunwyd y byddai'r Aelodau'n cael eu diweddaru ymhellach yn y dyfodol, naill ai fel eitem Rhan II neu mewn cyfarfod ar wahân. Cytunwyd bod hwn yn fater pwysig a ddylai dreiddio i weithgareddau dydd i ddydd i'r holl staff.

7.5 Cadarnhaodd Steve Morris, Pennaeth TGCh, fod y ffocws ar y Fframwaith Asesu Seiber gan fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn arwain ar y darn hanfodol hwn o waith, gan annog yr holl sectorau cyhoeddus i gyflawni hynny yn 2025. Byddai cyfarfod pellach yn cael ei gynnal gydag MIAA o fewn yr wythnosau nesaf er mwyn asesu cynnydd yn erbyn yr argymhellion y cytunwyd arnynt.

7.6 Cynghorodd PSTC Jones hefyd ei fod wedi'i neilltuo'n uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywio Gwybodaeth, fel Risg Strategol, a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod i drafod y Gofrestr Risg.

**7.7 PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2024/25; a**
- **ii) nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt.**

## 8.0 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU 2024-25

8.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones y Diweddariad Blynyddol ar Ddiogelu ar gyfer 2024-25, dogfen a oedd yn amlinellu'r gweithgareddau diogelu a gynhaliwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'n ailddatgan ymrwymiad y Gwasanaeth i ddiogelu unigolion bregus ledled Gogledd Cymru, gan fanylu ar nifer ac ar natur yr atgyfeiriadau diogelu a wnaed ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rôl ragweithiol staff wrth adnabod ac ymateb i arwyddion o gamdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio.

8.2 Gofynnodd Aelod am y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â gwneud atgyfeiriadau gan ei bod yn ymddangos bod diffyg rhoi gwybod mewn rhai meysydd, ac ymatebodd PSTC Jones fod y broses yn syml ac wedi'i hymgorffori'n dda yn y Gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd cynllun ar waith i wneud gwelliannau ac roedd yn parhau i fod yn faes lle ceid ffocws pwrpasol, gydag adnoddau ar gael yn ôl yr angen.

8.3 Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw dueddiadau yn y data, a chytunodd PSTC Jones y byddai dadansoddiad data pellach yn cael ei gynnal a'i fwydo'n ôl i'r Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

8.4 Nododd PSTC Evans fod yr atgyfeiriadau diogelu hyn yn cael eu gwneud yn gyffredinol mewn cysylltiad â phobl nad oeddent eisoes yn hysbys i asiantaethau partner eraill ac felly roedd hwn yn faes gwaith pwysig.

**8.5 PENDERFYNWYD:**

- **i) Ehangu'r capasiti hyfforddi mewnol trwy gefnogi staff i gael cymwysterau diogelu uwch;**
- **ii) gwella ymwybyddiaeth o ddiogelu mewn ardaloedd lle ceir cyfraddau atgyfeirio isel, fel Wrecsam ac Ynys Môn, trwy dargedu gwaith allgymorth a hyfforddiant;**
- **iii) cryfhau'r gwaith o gasglu a dadansoddi data er mwyn monitro tueddiadau yn well ac i lywio penderfyniadau strategol; a**
- **iv) chyflwyno arweinwyr diogelu swyddogaethol ar draws pob ardal weithredol er mwyn sicrhau cysondeb mewn arfer ac arweinyddiaeth.**

**9.0 ADRODDIAD RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER Y FLWYDDYN 2024/25**

9.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards yr Adroddiad Rheoli Trysorlys ar gyfer Blwyddyn 2024/25 i'r Aelodau a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch rheoli trysorlys a chydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025.

9.2 Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw bryderon wrth symud ymlaen, ac atebodd y Trysorydd fod y risgiau byd-eang ar hyn o bryd yn peri pryder ond, o ran eu heffaith ar y senario economaidd, roedd hyn yn anodd ei ragweld. Roedd yn edrych yn debygol y bydd cyfraddau llog yn gostwng ac felly nid oedd wedi effeithio ar gostau benthyca'r Gwasanaeth eto; fodd bynnag, gallai unrhyw gynnydd yn yr arena fyd-eang effeithio ar chwyddiant ac, o ganlyniad, gallai'r cyfraddau llog ar fenthyca ddechrau cynyddu.

**9.3 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.**

**10.0 STRATEGAETH GAFFAEL GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB CYMRU 2025-2030**

10.1 Cyflwynodd Elgan Roberts Strategaeth Gaffael Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2025-2030, fframwaith cyffredin ar gyfer pob un o'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru i ddarparu arbedion effeithlonrwydd, gwerth am arian a manteision eraill mewn perthynas â chaffael nwyddau a gwasanaethau.

10.2 Cadarnhaodd Elgan fod gwaith yn cael ei wneud yn y cefndir i gasglu'r data a sefydlu dangosfwrdd a Dangosyddion Perfformiad Allweddol wrth symud ymlaen. Ni phenderfynwyd ar y rhain hyd yma, ond byddai'r Aelodau'n cael gwybod pan fyddai penderfyniad wedi'i wneud.

10.3 Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith caled yn y maes hwn, ac am y crynodeb gweithredol yn yr adroddiad a oedd yn crynhoi ei gynnwys yn glir.

**10.4 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi a chymeradwyo Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan 2025-2030**

**11.0 PENNU CYLLIDEB 2026-27**

11.1 Rhoddodd Elgan Roberts ddiweddariad llafar i'r Aelodau ynglŷn â Phennu'r Gyllideb ar gyfer 2026-27.

11.2 Nododd fod y diweddariad hwn yn edrych ymlaen at flwyddyn ariannol 2026/27 a'r gwaith sydd ei angen dros y chwe mis nesaf i bennu cyllideb deg a realistig.

11.3 Yn unol â’r blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i Weithgor Craffu ar y Gyllideb gael ei sefydlu i sicrhau goruchwyliaeth ariannol gan yr Awdurdod. Ar gyfer eleni, roedd y broses o bennu’r gyllideb wedi'i hadolygu i gyd-fynd yn well â gwaith y timau cynllunio, trawsnewid, a rheoli risg.

11.4 Y bwriad oedd i'r grŵp ddechrau trwy adolygu'r risgiau a sut maent yn dod yn rhan o amcanion adrannol, a chael diweddariad ar brosiect y ganolfan hyfforddi. Byddai'r ffocws wedyn yn symud at incwm o bartneriaethau ac ardollau, cronfeydd wrth gefn, a'r templed newydd ar gyfer achosion busnes, ac yna golwg ar gyllidebau adrannol, adolygiad o ofynion refeniw dros dair blynedd a'r cynllun cyfalaf deng mlynedd er mwyn creu cynllun tymor canolig.  Byddai disgwyl y fersiwn ddrafft gyntaf o'r gyllideb tua diwedd mis Medi.

11.5 Byddai ail fersiwn y gyllideb yn cael ei hadolygu wedyn, gyda phwyslais penodol ar effeithlonrwydd ac arbedion. Y nod fyddai cyflwyno'r gyllideb lawn ym mis Tachwedd, gan sicrhau bod yr holl achosion busnes wedi'u cymeradwyo. Byddai sesiwn wrth gefn yn cael ei threfnu ym mis Rhagfyr rhag ofn bod angen unrhyw addasiadau.

11.6 Roedd yn bwysig sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cael ei gynrychioli, gyda dirprwy yn bresennol os nad oedd yr Aelod enwebedig ar gael. Cytunodd yr aelodau fod y Grŵp Craffu ar y Gyllideb yn grŵp effeithiol a gwerth chweil ac y dylai’r grŵp barhau. Enwebiadau i'w darparu i Wasanaethau Aelodau.

11.7 Gofynnodd y Trysorydd am gael nodi’r ffaith ei fod wedi gwerthfawrogi gwaith y grŵp hwn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a'i fod yn teimlo bod ganddo rôl bwysig wrth graffu ar y gyllideb a chyfathrebu ag awdurdodau lleol ar gam cynnar mewn perthynas â'r ardollau arfaethedig.

**11.8 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi’r wybodaeth a ddarperir ac i gynrychiolydd o bob awdurdod lleol gael ei gyflwyno i Wasanaethau Aelodau.**

## 12.0 DATGANIAD O GYFRIFON DRAFFT 2024-25

12.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y Datganiad o Gyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2024-25, gan gynnwys yr alldro refeniw a chyfalaf, sefyllfa'r fantolen, a'r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer yr Awdurdod. Rhoddwyd diolch i'r tîm Cyllid, yn enwedig Pennaeth a Dirprwy Bennaeth yr adran, am eu holl waith caled wrth gynhyrchu'r ddogfen helaeth, llawn gwybodaeth hon o fewn yr amserlenni statudol.

12.2 Tynnodd PSTC MacArthur sylw at yr adroddiad naratif manwl yn y Datganiad o Gyfrifon a oedd yn rhoi trosolwg da o'r Awdurdod gan gynnwys gwybodaeth ariannol allweddol. Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod y sefyllfa alldro yn warged o £0.293m a oedd yn cynnwys cyllid ychwanegol i gefnogi costau pensiwn y cyflogwr, costau cyflogres, grantiau a symudiadau rhwng cronfeydd wrth gefn. Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn oedd £10.879m a nododd PSTC MacArthur fod dadansoddiad wedi'i ddarparu yn Nodyn 8 yn y Datganiad o Gyfrifon. Darparwyd trosolwg o'r prif gronfeydd wrth gefn.

12.3 Gofynnodd Aelod a oedd y cronfeydd wrth gefn a gedwir yn ddigon i gwmpasu unrhyw risgiau, a chadarnhaodd PSTC MacArthur eu bod yn darparu gwydnwch ariannol yn erbyn materion hysbys, gan gynnwys gweithgarwch uwch na'r disgwyl.

12.4 Amlinellodd PSTC MacArthur yr ymatebion a ddarparwyd i Archwilio Cymru mewn perthynas ag ymholiadau yn ymwneud â thwyll, cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thrafodion partïon cysylltiedig. Cadarnhawyd bod yr ymateb wedi'i gymeradwyo gan Gadeirydd yr Awdurdod Tân.

12.5 Cadarnhaodd y Trysorydd ei fod yn hapus i lofnodi'r cyfrifon drafft hyn a diolchodd i PSTC MacArthur, y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth Cyllid, a gweddill yr adran Gyllid am y gwaith caled a wnaed i lunio'r cyfrifon hyn. Nododd ymhellach fod Archwilio Cymru eisoes wedi dechrau eu harchwilio.

**12.6 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei archwilio;**
**ii) Nodi sefyllfa'r fantolen heb ei harchwilio;**
**iii) Nodi a chymeradwyo'r symudiad i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt; a**
**iv) Chymeradwyo'r ymateb i Archwilio Cymru mewn perthynas â materion llywodraethiant sy'n berthnasol i'r Datganiad o Gyfrifon.**

## 13.0 DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL 2024-2025

13.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones ddrafft o’r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru erbyn y terfyn amser, sef 31 Mai 2025.

**13.2 PENDERFYNWYD:**

**i) Cytuno ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2024/25;**
**ii) nodi bod drafft o’r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol wedi'i gyflwyno i Archwilio Cymru cyn y dyddiad cau o 31 Mai; ac**
**iii) awdurdodi ei gyflwyno i Archwilio Cymru cyn 31 Mai 2025.**

**14.0 CYNLLUN ARCHWILIO 2025**

14.1 Croesawyd Kieran Vickery o Archwilio Cymru i'r cyfarfod, ynghyd â Carwyn Rees a Tim Buckle, a dywedodd wrth yr Aelodau mai pwrpas yr adroddiad hwn oedd cadarnhau Cynllun Archwilio 2025 a oedd yn manylu ar y dull archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru fel archwilwyr statudol yr Awdurdod.

14.2 Cadarnhaodd Tim mai prif ffocws eu gwaith eleni oedd cynaliadwyedd ariannol a byddai'r amser gorau i gynnal gwaith archwilio perfformiad yn cael ei nodi maes o law.

14.3 Gofynnodd Aelod, o dan yr archwiliad perfformiad, a fyddai hyn yn cynnwys gwaith a wnaed ar ymateb y Gwasanaeth i danau mewn anheddau domestig, ac a oedd y cynllun yn addas i'r diben. Ymatebodd Tim Buckle, er bod ganddynt brif faes ffocws ar gyfer eu gwaith, bod eu hargymhellion o waith blaenorol a'r ymatebion iddynt yn cael eu monitro'n barhaus ynghyd ag unrhyw risgiau a allai ddod i'r amlwg, a bod cynlluniau yn cael eu diwygio yn unol â hynny.

14.4 Gofynnwyd ymhellach, os oes unrhyw broblemau, sut y byddai'r Aelodau'n cael eu cynghori am hynny ac ymatebodd Tim Buckle y byddent yn rhoi gwybod am hyn i'r Aelodau drwy'r sianeli priodol.

**14.5 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru.**

**15.0 MATERION BRYS**

14.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55